

CROESO I'R GYMDEITHASFA YN Y DE CAPEL NEWYDD LLANDDAROG - HYDREF 25, 2017

Tro Henaduriaeth Myrddin yw croesawu'r Gymdeithasfa yn y De ar y 25ain o Hydref, 2017. Byddwn yn cwrdd yng Nghapel Newydd, Llanddarog a bydd croeso cynnes yn eich disgwyl, yn gynrychiolwyr, gwahoddedigion, gweinidogion, a blaenoriaid.

Gymdeithasfa Undydd yw hon ac felly bydd yr amserlen yn weddol dynn. Byddwn yn trafod y Weindogaeth a'r Genhadaeth, a gyda prinder gweinidogion ymhlith eglwysi De Cymru y mae'n rhaid edrych ar batrymau newydd. Y mae'r dair Henaduriaeth wedi bod yn gwneud hynny yn ddiweddar, ac wedi penodi gweithwyr gan nad oes gweinidogion ar gael. Llwyddwyd i benodi nifer o weithwyr, ond yn anffodus y mae nifer o swyddi heb eu llenwi. Bydd trafodaeth ar hyn yn y Gymdeithasfa, ac hefyd y mae'r Pwyllgor Bywyd a Thystiolaeth am ofyn i Adran y Gweinidogaethau ystyried sut y gallwn sicrhau gwasanaeth llygywr i lenwi swyddi llawn a rhan amser ym maes gweinidogaeth a chenhadaeth.

Y mae'r baich cynyddol ar yr Henaduriaethau hefyd yn peri pryder gyda nifer y gwirfoddolwyr yn prin, a'r gofynion cyfreithiol sydd arnom yn cynyddu ym maes iechyd a diogelwch, grwpiau bregus, cyflogaeth, cynnal a chadw mynwentydd, gosod eiddo ar rent,



Y Llywydd Mrs Margaret Jones a'r Ysgrifennydd y Parch Wyn Morris

cadw at reolau y Comisiwn Elusennau. D'oes dim o'i le wrth gwrs ar y gofynion cyfreithiol hyn, mae'n bwysig fod grwpiau bregus yn cael eu gwarchod, bod ein hadeiladau yn ddiogel, a bod y tai yr ydym yn eu rhentu i fyny i'r safon ddisgwyliedig. Ond y mae hyn yn gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar ein Henaduriaethau a'u swyddogion, a'r perygl yw na fyddwn yn gallu sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r deddfau hyn i'r dyfodol. Mae dwy Henaduriaeth wedi ceisio ateb y problem trwy benodi gweinyddwyr rhan amser a bydd yn ddiddorol gweld a fydd hyn yn

llwyddiannus ac yn ateb i'n problemau. Fel ymhob Gymdeithasfa arall erbyn hyn bydd yn rhaid trafod gwerthu, a'n defnydd o arian Strategaeth, a dw i'n siŵr y bydd y Gymdeithasfa yn y De yn ddiolchgar fod y Gymanfa Gyffredinol wedi gwrandao ar ei sylwadau parthed ariannu'r Cyfundeb i'r dyfodol, a thrwy fabwysiadu y Cyfraniad Gweinidogaeth a Chenhadaeth newydd, yn cynnig ffordd mwy cynaliadwy o ariannu'r Cyfundeb i'r dyfodol.

Yng Nghyfarfod Unedig y Blaenoriaid a'r Gweinidogion bydd Dr Huw Owen, Aberystwyth yn sôn am yr ymdrech sydd i gadw adeiladau hanesyddol i'r dyfodol. Bydd yn ddiddorol clywed ei sylwadau.

Uchafbwynt Y Gymdeithasfa fydd y Gwasanaeth Cofio a Chymun am hanner dydd. Byddwn yn llongyfarch blaenoriaid am eu gwasanaeth i'r Eglwys, yn cofio y rhai a gollwyd yn ystod y misoedd diwethaf, cyn dod at Fwrdd y Cymun i gofio a diolch am aberth ein Gwardwr drosom. Dyma ganolbwynt gwaith ein heglwys o hyd wrth gwrs, cyhoeddi Crist fel Gwardwr, a gwahodd pobl Cymru i'w garu a'i wasanaethu.

Croeso i'r Gymdeithasfa yng Nghapel Newydd, Llanddarog.

Ifan Rh. Roberts,
Ysgrifennydd Henaduriaeth Myrddin.



Beth yw'r haf i ni?

Pan ofynnodd disgyblion Ioan Fedyddiwr, ar ran eu hathro oedd yng ngharchar ar y pryd, wrth lesu os mai ef oedd y Meseia? ateb syml lesu oedd, 'Dewch i weld.'

Pan ofynnwyd i swyddogion y Gwasanaeth Ieuentid sut haf

a gafwyd yng nghyrsiau haf Coleg y Bala derbyniasom luniau (gwerth mil o eiriau'r un, os credwn y wireb) i gyfleu asbri a gobaith gweithgarwch ein gwasanaeth ieuentid.

A dyma lun o'r Cwrs Ieuentid a gynhaliwyd ym mis Awst.

Cawn luniau pellach o'r cwrs Anhrefn Awst a Souled Out yn yr wythnosau sy'n dod.